ADEILADU ARBENIGRWYDD YNG NGHYMRU
CONSTRUCTING EXCELLENCE IN WALES



# Ailgylchu agregau mewn prosiectau cyfleustodau (utilities)

*Contractwyr yn gweld manteision ailgylchu agregau wrth drwsio, adfer neu adnewyddu cyfleustodau.*

**Y diwydiant Cyfleustodau yn y Deyrnas Unedig yw un o'r prif ddefnyddwyr llafur, deunyddiau a chludiant wrth weithio ym mhob rhan o'r wlad yn tyllu am rwydweithiau ceblau a phibellau i drwsio, adfer neu adnewyddu'r rhwydwaith cymhleth o gyfleusterau tanddaearol sy'n gwasanaethau cymunedau a busnesau.**

Amcangyfrifir fod y diwydiant yn cynhyrchu tua 4.8 miliwn tunnell o wastraff wrth agor ffosydd yn unig.

Yn anochel o ystyried natur y gwaith – agor ffos i ddatgelu rhwydweithiau ceblau a phibellau – mae'n cynhyrchu swm sylweddol o wastraff ar wyneb y ddaear sydd angen ei waredu. Wedi gorffen y gwaith, rhaid i'r contractwr osod gwely ac is sylfaen ar gyfer pibellau. Mae'r gwaith hwn yn digwydd yn ddyddiol ym mhob rhan o Gymru gan greu dwy sialens fawr o ran rheoli gwastraff.

Oni bai am yr angen i gydymffurfio â'r hierarchaeth wastraff, byddai contractwyr yn agor ffos a chael gwared o'r gwastraff mewn safle tirlenwi. Yna byddent yn ail lenwi'r ffos gyda deunydd chwarel naturiol newydd.

## MANYLION Y PROSIECT

**Manteision ailgylchu agregau mewn prosiectau yng Nghymru.**



**Thema Arfer Gorau:**

- Lleihau gwastraff ac ailddefnyddio agregau mewn prosiectau adeiladu

## TÎM Y PROSIECT

**Cleientt:** Addysgu, hyfforddi a lledaenu gwybodaeth

## CYSYLLTIADAU ALLWEDDOL

**Paul Jennings, CEWales**
paul.jennings@cewales.org.uk



Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government



Ers 2008, ymrwymodd llawer o'r cwmnïau cyfleustodau mawr i Gytundeb Diwydiant Cyfleustodau yn ymwneud ag ailgylchu agregau. Fodd bynnag, mae contractwyr llai ar haenau is y diwydiant yn deall a gwybod llai am ailgylchu defnyddiau a phwysigrwydd dilyn dulliau cynaliadwy wrth waredu ac ailddefnyddio gwastraff.

Roedd un o'r contractwyr cyfleustodau mwyaf, May Gurney, yn ymwneud â'r Cytundeb yn ei ddyddiau cynnar. Meddai eu Rheolwr Cynaliadwyedd:

*"Mae'r cytundeb hwn yn gosod sylfaen a fydd yn galluogi'r diwydiant i gydweithio er mwyn delio â gwastraff adeiladu.*

*Rydym yn ceisio lleihau gwastraff gan ailddefnyddio ac ailgylchu gymaint ag y bo modd drwy reoli gwastraff yn gadarn. Mae'r cytundeb yn cefnogi ein hymdrechion i hyrwyddo'r defnydd o ddeunyddiau a gafodd eu hailgylchu a'u sefydlogi."*

I gefnogi a hyrwyddo'r Cytundeb, a gweithio gydag ailgylchwyr a darparwyr cynhyrchion ailgylchu yn lleol, mae Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru (CEW) yn gweithio'n agos gyda chwmnïau cyfleustodau ar yr haenau is yng Nghymru i gynyddu ymwybyddiaeth o waredu cynaliadwy a'r gwahanol ddewisiadau a deunyddiau sydd ar gael.

Paratowyd cyflwyniadau a threfnwyd cyfarfodydd gan CEW yn rhoi barn a gwybodaeth ddiduedd am y cyfleoedd i gontractwyr yng Nghymru gludo eu gwastraff agor ffosydd i fannau ailgylchu lle gellir ei droi'n agreg wedi ei olchi a'i raddio ar gyfer ei ailddefnyddio wrth gau ffosydd.

Sefydlodd y prosiect lŵp caeedig penodol i'r diwydiant ar gyfer gwaredu, ailgylchu ac ailddefnyddio. Pwysleisiodd gyfrifoldebau'r contractwyr a dangosodd enghreifftiau o gyflenwyr agregau eildro (recycled) o safon uchel yng Nghymru.

Wrth bwyso a mesur deilliannau'r prosiect, amcangyfrifwyd y gall fod gweithio gyda chontractwyr haen is yn unig wedi arbed tua 300,000 tunnell y flwyddyn o rwbel a gwastraff rhag cael ei anfon i safleoedd tirlenwi. Ym mlwyddyn gyntaf yr ymgyrch, arbedwyd 60,000 tunnell o wastraff rhag cael ei dirlenwi a chrëwyd perthynas gynaliadwy rhwng contractwyr cyfleustodau ac ailgylchwyr agregau.




Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru
2il Lawr, Cwrt Longcross / 47 Heol Casnewydd / Caerdydd CF24 0AD
T: 029 20 493322 F: 029 20 493233
E: info@cewales.org.uk

ADEILADU ARBENIGRWYDD YNG NGHYMRU
CONSTRUCTING EXCELLENCE IN WALES